# CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | GDMC Caernarfon, Pwllheli a Cricieth |
| **Aelod Cabinet:** | Cyng. Dilwyn Morgan |
| **Swyddog perthnasol:** | Daron Marged Owens – Uwch Swyddog Gweithredol y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 16/07/24 |

## 1. Penderfyniad a geisir:

(a) Cymeradwyo cyflwyno Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (GDMC) newydd ar gyfer Caernarfon, Pwllheli a Cricieth am gyfnod o dair blynedd, yn unol â'r Gorchymyn Arfaethedig drafft a atodir (atodiad 1)

(b) Awdurdodi Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant i ymgymryd â chyflwyno'r Gorchymyn Arfaethedig yng Nghaernarfon, Pwllheli a Cricieth

## 2. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:

Awdurdodau Lleol a neb arall sydd gyda'r hawl i greu GDMC. Yn unol â Chyfansoddiad yr Awdurdod Lleol, mae creu gorchymyn o'r fath yn swyddogaeth weithredol a'r Cabinet sy'n gyfrifol ynglŷn â fo.

## 3. Cyflwyniad a Rhesymeg

### 3.1 Cefndir/ Cyflwyniad

Mae Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 yn rhoi'r grym i Awdurdodau Lleol gyflwyno Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (GDMC) i ymdrin â niwsans(au) neu broblem(au) penodol mewn mannau penodol. Cysylltodd yr Heddlu â'r Uwch Swyddog Gweithredol Diogelwch Cymunedol i wneud cais am GDMC mewn ymateb i'r mathau newydd a chynyddol o ymddygiad gwrthgymdeithasol a welwyd yng Nghaernarfon, Pwllheli a Chricieth.

Cyn gwneud gorchymyn o'r fath, rhaid i'r Awdurdod Lleol fod yn fodlon -

- Bod sail resymol dros gredu fod y gweithgareddau hyn mewn man cyhoeddus wedi cael, neu yn debygol o gael, effaith andwyol ar ansawdd bywyd pobl yn y cyffiniau.
- Bod y gweithgareddau yn, neu'n debygol o fod, yn fynych ac yn barhaus eu natur.
- Bod y gweithgareddau yn, neu'n debygol o fod, yn afresymol.
- A'u bod yn cyfiawnhau'r cyfyngiadau a osodir.

Yn ogystal, cyn gwneud gorchymyn, rhaid i'r Awdurdod Lleol ymgynghori â'r Heddlu a'r gymuned ehangach. Mae'r materion hyn eisoes wedi'u trafod yn faith gyda'r Heddlu, Aelodau Lleol a Chynghorau Tref Caernarfon, Cricieth a Pwllheli. Mae pob un o blaid

cyflwyno Gorchymyn yn eu hardaloedd priodol. Yn ogystal derbyniwyd sylwadau gan Aelodau Seneddol Arfon a Dwyfor Meirionnydd yn nodi eu cefnogaeth.

Cyflwynwyd adroddiad i'r Cabinet ar 19 Rhagfyr 2023 yn argymell fod y Cabinet yn cymeradwyo proses o ystyried a ddylid cyflwyno GDMC mewn ardaloedd benodol yng Nghaernarfon, Pwllheli a Cricieth. Gofynnwyd am ganiatâd i ddal ymgynghoriad cyhoeddus. Wedi hyn, dychwelyd y mater i'r Cabinet er mwyn penderfyniad terfynol a ddylid cyflwyno GDMC newydd. Yn seiliedig ar yr achos a gyflwynwyd ar y pryd, penderfynodd y Cabinet fod cyfiawnhad dros symud i'r cam nesaf a chynnal ymgynghoriad cyhoeddus. Bellach, mae angen i'r Cabinet ystyried canfyddiadau'r ymgynghoriad ac, yn sgil yr ymgynghoriad hwnnw, a yw'n cymeradwyo cyflwyno gorchmynion newydd.

Mae'r Gorchymyn Arfaethedig yn cynnwys tri gwaharddiad, sef:

1. Ni chaiff person ddilyn cwrs o ymddygiad sydd yn achosi, neu sydd yn rhesymol canfod ei fod yn achosi aflonyddwch, braw, niwsans neu drallod.
2. Ni chaiff person yfed alcohol, nac un rhywbeth y mae Person Awdurdodedig yn rhesymol gredu i fod yn alcohol neu gynhwysydd i ddal alcohol, os yw Person Awdurdodedig yn gofyn i'r person stopio ag yfed neu ildio'r alcohol neu'r cynhwysydd.
3. Ni chaiff person loetran mewn cyflwr o feddwdod o ganlyniad i gymryd alcohol neu gyffuriau. Os yw Person Awdurdodedig yn gofyn i'r person ymadael â'r ardal mewn amgylchiadau lle bo'r person wedi tramgwyddo'r cyfyngiad yma, rhaid I'r person ymadael ar unwaith.

**3.2 Rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad**

Roedd yr ymgynghoriad yn agored am gyfnod o 6 wythnos. Lansiwyd ar y 26ain o Chwefror, a daeth i ben ar 8fed o Ebrill. Cyhoeddwyd datganiad i'r wasg ar y 14/03/2024. Hyrwyddwyd yr ymgynghoriad nifer o weithiau drwy ein tudalennau cyfryngau cymdeithasol. Hysbyswyd y Cynghorau Tref a'r Aelodau Lleol perthnasol pan agorwyd yr ymgynghoriad, gyda cais i'w hyrwyddo a'i cymunedau. Cysylltwyd a busnesau o fewn yr ardaloedd arfaethedig i'w hysbysu fod yr ymgynghoriad ar agor.

Roedd modd i'r cyhoedd ymateb ar-lein drwy holiadur syml, neu roedd holiadur papur gyda amlen rhagdaledig i ddychwelyd ymatebion ar gael yn Siop Gwynedd Caernarfon a Pwllheli a'r Llyfrgelloedd ym mhob tref. Roedd modd hefyd i bobl gysylltu yn uniongyrchol gyda'r tîm Diogelwch Cymunedol i wneud cais am ffurflen bapur, neu rhannu unrhyw sylw.

Derbyniwyd 112 o ymatebion cyflawn i'r holiadur, a cheir amlinelliad o'r broses ymgynghori ynghyd â manylion am y canfyddiadau yn y ddogfen amgaeedig. (atodiad 3)

Y prif ganfyddiadau yw:-

**<u>Caernarfon</u>**

-Roedd y mwyafrif **(63%)** yn nodi fod angen PSPO yn yr ardal.
-Roedd y mwyafrif **(67%)** yn cytuno a'r ardal arfaethedig.
-Roedd y mwyafrif yn cytuno a'r cyfyngiadau arfaethedig:

1) Ni chaiff unigolyn ddilyn dull o ymddygiad sy'n achosi aflonyddu, braw, niwsans, neu drallod. **(93% yn cytuno)**
2) Ni chaiff unigolyn yfed alcohol os yw Person Cymeradwy yn gofyn i'r unigolyn stopio yfed neu i ildio'r alcohol neu'r cynhwysydd. **(80% yn cytuno)**
3) Ni chaiff person loetran mewn cyflwr o feddwdod o ganlyniad i gymryd alcohol neu gyffuriau. **(77% yn cytuno)**
   - Yn benodol nodwyd Stryd y Llyn a'r Safle Bws fel ardaloedd o bryder sylweddol am ymddygiad gwrth-gymdeithasol.

**Pwllheli**

-Roedd y mwyafrif **(85%)** yn nodi fod angen PSPO yn yr ardal.
-Roedd y mwyafrif **(73%)** yn cytuno a'r ardal arfaethedig.
-Roedd y mwyafrif yn cytuno a'r cyfyngiadau arfaethedig:

1) Ni chaiff unigolyn ddilyn dull o ymddygiad sy'n achosi aflonyddu, braw, niwsans, neu drallod. **(94% yn cytuno)**
2) Ni chaiff unigolyn yfed alcohol os yw Person Cymeradwy yn gofyn i'r unigolyn stopio yfed neu i ildio'r alcohol neu'r cynhwysydd. **(81% yn cytuno)**
3) Ni chaiff person loetran mewn cyflwr o feddwdod o ganlyniad i gymryd alcohol neu gyffuriau. **(92% yn cytuno)**

- Yn benodol nodwyd y Safle bws a'r Maes fel ardaloedd o bryder sylweddol am ymddygiad gwrth-gymdeithasol.

**Cricieth**

-Roedd y mwyafrif **(65%)** yn nodi fod angen PSPO yn yr ardal.
-Roedd y mwyafrif **(56%)** yn cytuno a'r ardal arfaethedig. Roedd 21% yn anghytuno, a 18% yn ansicr. Roedd nifer o'r rhai ymatebwyd 'anghytuno' yn codi pryderon am ardaloedd ychwanegol, ac eisiau ehangu'r yr ardal arfaethedig.
-Roedd y mwyafrif yn cytuno a'r cyfyngiadau arfaethedig:

1) Ni chaiff unigolyn ddilyn dull o ymddygiad sy'n achosi aflonyddu, braw, niwsans, neu drallod. **(83% yn cytuno)**
2) Ni chaiff unigolyn yfed alcohol os yw Person Cymeradwy yn gofyn i'r unigolyn stopio yfed neu i ildio'r alcohol neu'r cynhwysydd. **(85% yn cytuno)**
3) Ni chaiff person loetran mewn cyflwr o feddwdod o ganlyniad i gymryd alcohol neu gyffuriau. **(83% yn cytuno)**

- Yn benodol nodwyd y Traeth/glan y môr a thrafnidiaeth gyhoeddus fel ardaloedd o bryder sylweddol am ymddygiad gwrth-gymdeithasol.

**O'r ymatebion a dderbyniwyd, gellir casglu bod gwybodaeth ddigonol i gydnabod fod nifer o bobl yn bryderus am ymddygiad gwrthgymdeithasol yn Nghaernarfon, Pwllheli a Cricieth, a bod y gefnogaeth i gyflwyno gorchymyn yn gryfach nag unrhyw wrthwynebiad.**

Yn dilyn dadansoddiad o'r ymatebion, darparwyd crynodeb o'r canlyniadau i'r Cynghorau Tref, Aelodau Lleol a'r Heddlu, gyda cais am sylwadau. Wedi ystyried y

canlyniadau, roedden nhw i gyd yn unfrydol yn eu cefnogaeth parhaus i gyflwyno GDMC yn yr ardaloedd yma.

Yn ogystal, cynhaliwyd trafodaethau gyda'r Heddlu i ail-ystyried ardal ddaearyddol y gorchmynion arfaethedig, mewn ymateb i'r awgrymiadau a gododd o'r ymgynghoriad. Roedd rhaid ystyried y dystiolaeth o angen, a'r gallu i orfodi'r gorchymyn. Yn seiliedig ar drafodaethau pellach gyda'r Heddlu o beth oedd yn ymarferol a synhwyrol o ran plismona, mae'r ardal yng Nhaernarfon wedi'i hehangu i gynnwys:
**Caernarfon**
- Penrallt Uchaf ac Isaf
- y tanlwybr o'r safle bws i Stryd William

**<u>Sylwadau pellach i ystyried</u>**

Wrth ymateb i'r holiadur, darparwyd hefyd sylwadau am faterion eraill, yn benodol:
- Bod angen ystyried mesurau ataliol.
- Diffyg darpariaeth i bobl ifanc.
- Gyrru gwrth-gymdeithasol ym Mwllheli - Soniwyd 5 ymateb am geir yn cael eu dreifio'n wyllt, yn hwyr yn nos.
- Darparwyd sylwadau fod angen bod yn bwyllog a pheidio cosbi pobl ifanc yn afresymol, ac yfwyr cymedrol yn mwynhau cymdeithasu yn y tafarndai. Mynegwyd pryderon am swyddogion gôr selog gyda gormod o bŵer.

Lle'n gymwys, rydym wedi rhannu'r sylwadau gyda phartneriaid perthnasol, megis yr Heddlu, Gwasanaethau Ieuenctid a Priffyrdd.

Bydd y gyllideb Diogelwch Cymunedol a cyfraniad gan y Cynghorau Tref yn cyfarch y costau am yr arwyddion.

**<u>Deddf Cydraddoldeb 2010</u>**

Yn unol â'r dyletswyddau cyfreithiol dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, wrth wneud penderfyniadau mae rhaid i'r Cyngor dalu sylw dyledus i'r angen (1) i ddiddymu gwahaniaethu anghyfreithiol, (2) hyrwyddo cyfle cyfartal a (3) meithrin perthnasau da ar sail y nodweddion gwarchodedig ynghyd a dal sylw at ardrawiadau economaidd gymdeithasol.

Mae asesiad effaith cydraddoldeb wedi'i gynnal mewn perthynas â'r broses (atodiad 4), ac ymgynghorwyd gyda'r swyddog cydraddoldeb. Mae'r asesiad yn dangos fod y bwriad yn cael effaith bositif sylweddol ar bobl â nodweddion cydraddoldeb a thri nod y ddyletswydd cydraddoldeb.

Yn ogystal, mae'r ddogfen yn dangos yr ystyriaeth fanwl a roddwyd ar effeithiau posib ar anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae mwyafrif helaeth o'r effeithiau posib yn bositif, ac yn golygu ein bod yn lleihau'r bwlch economaidd-gymdeithasol. Fe welwch yn y ddogfen fod camau penodol yn cael eu gweithredu i ddileu unrhyw effaith negyddol posib.

**<u>Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015</u>**

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae’r ddeddf yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus sydd wedi ei anelu at gyflawni 7 o nodau llesiant, yn unol a 5 ffordd weithio. Mae’r Asesiad Effaith Cydraddoldeb (atodiad 4) yn manylu sut mae’r bwriad, a’r ffordd rydym wedi gweithredu, yn cydymffurfio a’r Ddeddf.

**3.3 Camau nesaf**

- Y Cabinet i gymeradwyo cyflwyno GDMC newydd yng Nghaernarfon, Pwllheli a Cricieth, yn unol â'r Gorchymyn Arfaethedig.
- Os y'i cymeradwyir, bydd yr Awdurdod Lleol yn cyhoeddi'r Gorchymyn dan sêl ar ei wefan.
- Os y'i cymeradwyir, bydd yr Awdurdod Lleol yn gosod arwyddion y mae'n ei ystyried yn ddigonol o fewn a gerllaw'r Ardal Gyfyngedig gan dynnu sylw'r cyhoedd i fodolaeth ac effaith y Gorchymyn.

**4. Sylwadau Swyddogion Statudol**

**4.1 Prif Swyddog Cyllid** Mae’r adroddiad yn nodi bydd y gyllideb Diogelwch Cymunedol a cyfraniad gan y cynghorau tref yn cyfarch y costau am yr arwyddion. Rwyf felly’n fodlon bod ffynonellau i ariannu’r penderfyniad a geisir wedi eu hadnabod a gallaf gadarnhau bydd y costau yn cael eu hadolygu yn unol â’r gwaith monitro cyllidebol arferol.

**4.2 Swyddog Monitro** Mae’r adroddiad yn amlygu y broses statudol sydd wedi eu dilyn er sefydlu y parthau yma. Bydd y Gwasanaethau Cyfreithiol yn cefnogi y trefniadau yma wrth symud ymlaen. Gallaf gadarnhau priodoldeb y penderfyniad a geisir

**Rhestr Atodiadau:**

**<u>Atodiad 1 –</u>** Gorchymyn Arfaethedig:- GORCHYMYN DIOGELU MANNAU CYHOEDDUS CYNGOR GWYNEDD (ALCOHOL AC YMDDYGIAD GWRTH-GYMDEITHASOL), (CAERNARFON, CRICIETH A PWLLHELI) 2024

**Atodiad 2 –** Mapiau o’r Ardaloedd Arfaethedig PSPO

**<u>Atodiad 3</u>** – Crynodeb o’r broses ymgynghori a’r prif ganfyddiadau

**<u>Atodiad 4</u>** – Asesiad Effaith Cydraddoldeb

**Rhestr Dogfennau Cefndir:**

*Public Spaces Protection Orders: Guidance for Councils. Local Government Association*

*Anti-social Behaviour, Crime and Policing Act 2014: Anti-social behaviour powers Statutory guidance for frontline professionals*

*AMSERLEN PENDERFYNIADAU Y CABINET*

| *LLUN* | *MAWRTH* | *MERCHER* | *IAU* | *GWENER* |
|---|---|---|---|---|
| | *E-bost i'r Penaethiaid yn cynnwys y rhaglen ddrafft* | | | |
| *Dyddiad olaf cofrestru eitem* | | | | *Anfon y dogfennau at y swyddogion statudol am eu sylwadau – IE, DAM, DG* |
| | | | *Papurau i'w cyflwyno (2 iaith) i 'cabinet' erbyn hanner dydd* | *Cyhoeddi Agenda'r Cabinet i'r Aelodau Cabinet* |
| *Cyhoeddi Agenda'r Cabinet* | | | | |
| | *CYFARFOD Y CABINET* | | | |
| | | *Cyhoeddi Taflen Benderfyniad* | | |
| | | | *Penderfyniad yn weithredol oni bai ei fod yn cael ei alw i mewn* | |

*Noder y gall yr amserlen newid os oes Gŵyl y banc yn ystod y cyfnod cyhoeddi. Bydd swyddog Tîm Democratiaeth yn nodi'r dyddiadau allweddol yn yr e-bost i'r Penaethiaid.*

*Cofiwch gysylltu â'r Uned Gyfieithu i drefnu cyfieithiad mewn da bryd.*